


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Hydref 6 2026

COFNODION

1.10.26 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng Gwilym Jones. Cyn dechrau'r trafodaethau gofynnodd i'r Pwyllgor Llawn gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Staffio i benodi Marian Roberts yn Clerc yn dilyn ymddiswyddiad Elfyn Lewis. Cytunwyd yn unfrydol.

2.10.26 Presennol

Cynghorwyr :- Aled Griffith, Carol Hayes, Gwilym Jones (Cadeirydd), Dr Melfyn Edwards, Karena Owens, Dion Humphreys, Alwyn Gruffydd, Llywelyn Rhys (Is-Gadeirydd)

Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :- Michael Roberts, Sarah Williams, Ben Humphreys, Glenda Murray

Absennol :- Cyng Edward Naish

3.10.26 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Medi 2026

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Carol Hayes yn eilio.

4.10.26 Adroddiad y Cadeirydd

Roedd yn falch iawn i weld bod y Llwybr Llesiant newydd ar draws y Llyn Bach wedi ei orffen i safon uchel a'i fod yn boblogaidd iawn gyda thrigolion Porthmadog a'r ymwelwyr. Roedd yn falch i ddweud fod y Cyngor Tref wedi cael yngyngchori a chyfrannu at ddatblygu'r cynllun o'r cychwyn. Nododd y bydd meinciau yn cael eu gosod maes o law yn yr ardaloedd penodol i wynebu'r Llyn Bach a'r mynyddoedd. Nododd hefyd bod llawer iawn o ymwelwyr yn parhau yn yr ardal.

5.10.26 Adroddiad y Clerc

Nodwyd y canlynol :-

- Trefniadau Sul y Cofio wedi eu cwblhau gyda Chyngor Gwynedd, y Lleng Brydeinig a Barry Edwards
- Trefniadau coed Nadolig wedi eu cwblhau gyda Ian Cadmore, Williams & Williams a Barry Edwards (Cyngor Gwynedd)
- Padiâu newydd wedi eu rhoi yn defibs Morfa Bychan, Swyddfa Bost a Cherrig yr Afon
- Adroddiad Blynnyddol Elfyn Lewis wedi ei roi ar y wefan
- Ffôn symudol wedi ei brynu yn enw'r Cyngor Tref
- Y broses o drefnu hyfforddiant i aelodau newydd ar y gweill
- Ar ôl holi'r Clerc blaenorol deallir nad oes cofnodion o Gyfarfod Arbennig Awst 3 2026 yn bodoli ac na ellir felly nodi beth a benderfynwyd yn ystod y cyfarfod.

6.10.26 Datgan diddordeb.

Dim datganiad o ddiddordeb

7.10.26 Ceisiadau Cynllunio.

(a) Rhif Cais / Application No.: C26/0514/44/CC wedi ebostio 15.9.26

Lleoliad / Location: Bodawen Nursing Home, BODAWEN Ffordd Glanrafon, Porthmadog, Gwynedd, LL499PR

Bwriad / Proposal: Gwaith coed arfaethedig yn cynnwys cwmpo un Dderwen, cwmpo un Onnen, a gwaredu un

Goeden Ynnen sy'n gogwyddo'n sylweddol. Gostwng uchder un Goeden Sycamorwydden tua 6-8 metr. Gwaith rheoli coron a gwaith cynnal a chadw coed cyffredinol i goed eraill ar y safle, gan gynnwys gwaith i sicrhau bwlch lleiaf o 2 fetr rhwng y coed Cypreswydden, Ynnen, Ffawyddden a Chelyn a'r adeilad cyfagos.

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

(b) Rhif Cais / Application No.: C26/0550/44/AC wedi ebostio 22.9.26

Lleoliad / Location: Tir Ger / Land By 2 Bron Afon, , Borth Y Gest, LL49 9TU

Bwriad / Proposal: Diwygio Amod 2 o ganiatâd cynllunio C25/0440/44/LL er mwyn caniatáu cynlluniau diwygiedig.

Penderfynwyd :- gwrthwynebu'r cais yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Karena Owens yn eilio, oherwydd y rhesymau canlynol :-

- Mae'n groes i'r cais gwreiddiol
- Mae'n rhy agos i ddrws yr eglwys

MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF

8.10.26 Arwyddo Les Cae Pawb

Penderfynwyd :- arwyddo'r les ym mhresenoldeb y Pwyllgor a'i ddychwelyd i Gyngor Gwynedd

9.10.26 Archwiliad Llawn 2025-2026 – gweler Gohebiaeth 3

Derbyn a chymeradwyo Archwiliad Mewnol Bleddyn Rhys

Cyfeiriodd y Clerc at gynnwys Gohebiaeth 3 lle mae Awdit Cymru yn rhoi amlinelliad clir o amserlen Archwiliad Llawn. Nodwyd nad oedd paratodau ar gyfer Archwiliad Llawn Cyngor Tref Porthmadog wedi dilyn yr amserlen briodol ac na chyflwynwyd Archwiliad Mewnol Bleddyn Rhys i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo tan y cyfarfod heno.

Penderfynwyd :- derbyn a chymeradwyo'r Archwiliad Mewnol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Aled Griffith yn eilio.

10.10.26 Penderfynu ar bwynt cyflog y Clerc (Gweler Gohebiaeth 4)

Gadawodd y Clerc yr ystafell tra bu'r pwyllgor yn trafod y mater.

Penderfynwyd :- y Clerc i gadw at bwynt cyflog 27 (yr un pwynt ag oedd yn ei dderbyn pan adawodd y swydd ym mis Mai 2025) yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio

11.10.26 Penderfynu ar gais y Clerc i gynyddu cof (storage) gliniadur y Cyngor Tref

Nododd y Clerc fod 'storfa'r' giniadur wedi cyrraedd 96% a bod angen talu'n ychwanegol am fwy o storfa.

Penderfynwyd :- caniatáu i'r Clerc drefnu i archebu mwy o 'storfa' yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

12.10.26 Cyng Carol Hayes :- cynnig gofyn i Gyngor Gwynedd adnewyddu'r ddwy fainc gyhoeddus sydd tu ôl i'r lloches fysiau yn yr orsa , a rhoi farnais ar y ddwy fainc o flaen yr Orsaf Heddlu.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Karena Owens yn eilio.

13.10.26 Cyng Carol Hayes :- cynnig ychwanegu "Materion Eraill" fel eitem diwethaf ar raglenni cyfarfodydd misol.

Penderfynwyd :- gwrthod y cynnig a'i adael i ddisgresiwn y Cadeirydd a'r Clerc os cyfyd mater brys

rhwng dyddiad cau'r Rhaglen â dyddiad y cyfarfod.

14.10.26 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Tachwedd 10 2026 = Tachwedd 1 2026, (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Aled Griffith** : cynnig gyrru llythyr i longyfarch Elfyn Evans ar ei lwyddiant diweddar yn ennill Pencampwriaeth Rali'r Byd yn Sardinia.
- **Cyng Gwilym Jones** :- cynnig ail-sefydlu'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo gyda chriw o tua 6 cynghorydd sydd yn ymddiddori neu'n arbenigo mewn materion ariannol.

11. Gohebiaeth: Rhestr Aros am Ateb (copi ymghlwm)

Penderfynwyd :- dim i'w drafod

12. GOHEBIAETH :

1	UN LLAIS CYMRU	Cydnabyddiaeth ariannol 2026-27 Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn edwards yn eilio
2	" "	Tabl 5 perthnasol i Gyngor Tref Porthmadog Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn edwards yn eilio
3	AWDIT CYMRU	Llif gwaith a chanllawiau archwiliad Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn edwards, Cyng Aled Griffith yn eilio.
4	NALC	Tabl Cyflog Clerc Penderfynwyd :- wedi trafod eisoes yn 10.10.26
5	UN LLAIS CYMRU	Rhestr hyfforddiant Cytunwyd ar bwysigrwydd hyfforddiant parhaol, yn enwedig i aelodau newydd o'r Cyngor Tref. Atgoffwyd y Cyngor Tref ei bod yn bolisi ganddynt i gynnig hyfforddiant i aelodau hen a newydd. Bydd y Clerc yn trefnu hyfforddiant ar gyfer yr aelodau newydd sydd wedi ymuno â'r Cyngor Tref yn y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd hefyd pwysigrwydd cynnig hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Cyllid er mwyn eu trwytho yn sustemau ariannol y Cyngor Tref. Penderfynwyd :- rhoi cynnig ar raglen mis Tachwedd i ail-sefydlu'r Is-Bwyllgor Cyllid fel cnewyllyn bach o aelodau'r Cyngor fyddai â diddordeb ym materion ariannol y Cyngor yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Aled Griffith yn eilio.

13. MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

1	HSBC 21.8.26	Llog Banc hyd at Medi 19 2026	£39.23
2	CYNGOR GWYNEDD 28.8.26	Praesept taliad 2	£38,007.68

Roedd y Clerc wedi gorfod ychwanegu rhai taliadau brys i'r rhestr a rannwyd yn y Rhaglen. Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dion Humphreys yn

eilio:-

1	ELFYN LEWIS	CYFLOG CLERC MEDI 2026	£1,500.93
2	HMRC	TRETH INCWM Y CLERC MEDI 2026	£375.23
3	Y GANOLFAN	Clwb ieuenctid Medi - Rhagfyr 2026	£360.00
4	CRICCIETH CLEANING	Glanhau llochesi bws	£215.11
5	DEFIB STORE	Wedi ordro padiau anghywir i Morfa B	£112.80
6	DEFIB STORE	Padau newydd i Morfa B, Post, Cerrig yr afon a 2 sbâr	£337.20
7	MARTDESIGN	Bwrdd gwybodaeth Eifion Wyn	£900.00
8	MARIAN ROBERTS	Ad-daliad am daliad cyntaf cytundeb ffôn symudol i'r Cyngor Tref	£35.99
9	MARIAN ROBERTS	Ad-daliad am charger ffôn symudol i'r Cyngor Tref	£15.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 19.55

Marian Roberts

9.10.2026

Marian Roberts (Clerc / Clerk) Swyddfa'r Cyngor Tref, Y Ganolfan, Porthmadog LL49 9LU
Ffôn :Tel : 0751155462

E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com